# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Rickeston Mill**

**Cartref Nyrsio Rickeston Mill**
**Rickeston Bridge**
**Hwlffordd**
**SA62 3DJ**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Rickeston Mill

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Rickeston Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gânt. Cânt eu cefnogi gan dîm o staff cyfeillgar a gofalgar. Mae'r gweithwyr gofal yn gadarnhaol am y gwaith y maent yn ei wneud a dywedodd un ohonynt, *"Being able to make a difference is so important"*. Mae cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn gadarnhaol hefyd. Caiff y gwasanaeth ei arwain yn dda gan y rheolwr newydd a dywedodd y bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi ei chymorth a'i harweiniad.

Mae'r amgylchedd yn gyfforddus ac mewn cyflwr da. Mae'r darparwr yn ymateb i waith atgyweirio dyddiol ar unwaith ac mae cynllun ar waith i wella agweddau mewnol ac allanol ar y cartref er budd y bobl.

Mae darparwr newydd wedi cymryd awenau'r gwasanaeth yn ddiweddar. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgynghori â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Caiff y bobl eu parchu; mae'r bobl a'r staff yn rhyngweithio'n gyfeillgar ac yn hamddenol â'i gilydd. Mae'r unigolion yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt, fel cymdeithasu â'i gilydd, cyfarfod â'u hymwelwyr a chymryd rhan yn y gweithgareddau a gynlluniwyd. Ar y cyfan, mae cynrychiolwyr y bobl yn gadarnhaol ynghylch y staff a'r gwasanaeth a gynigir, a dywedodd un ohonynt, *“The nursing care is second to none and nursing staff always appear to give of their best”.* Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan fod prosesau recriwtio yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a’r cymorth cywir.  Caiff gweithwyr gofal eu sefydlu a chânt gyfleoedd hyfforddi parhaus effeithiol er mwyn diwallu anghenion y bobl. Mae'r staff nyrsio wedi cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae'r gweithwyr gofal wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y rheolwr.

Mae'r adeilad yn gyfforddus ac mewn cyflwr da. Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant. Mae'r ardaloedd cymunedol yn olau ac yn fawr. Mae'r bobl yn defnyddio'r ardaloedd gwahanol sydd ar gael iddynt i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau, er enghraifft, sgwrsio â'i gilydd, gwylio'r teledu, gwrando ar gerddoriaeth, a chymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd. Mae gan y darparwr gynlluniau i sicrhau bod y gerddi yn fwy hygyrch er mwyn i'r bobl wneud pethau sydd o bwys iddynt, fel garddio, gwneud ymarfer corff neu gyfarfod â theulu a ffrindiau yn yr awyr agored.

Mae gan y bobl lais ac maent yn cyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys yn y broses sicrhau ansawdd. Mae'r prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae disgwyl i'r Unigolyn Cyfrifol gwblhau ei Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis cyntaf ac mae'n bwriadu defnyddio adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff i wella'r gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a gânt. Mae'r gweithwyr gofal yn parchu'r bobl a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio sensitif a gofalgar rhwng y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Dywedodd y bobl wrthym, *"I can't fault the place, it's fantastic"* a *"The staff are absolutely lovely*". Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn eu cefnogi yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. Wrth drafod ei rôl, dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, *"Being able to make a difference is so important".* Mae cynrychiolwyr y bobl yn gadarnhaol, ar y cyfan, am y gofal y mae'r bobl yn ei gael, a dywedwyd wrthym, *"The staff are excellent, we are so grateful to them".* Roedd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref hefyd yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth a'r arweinyddiaeth yn y gwasanaeth.

Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chynnal y cynlluniau personol. Mae'r nyrsys yn adolygu'r cynlluniau yn rheolaidd i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth dda bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys yn effeithiol. Caiff asesiadau risg eu llunio yn seiliedig ar anghenion penodol pob unigolyn ac maent yn cefnogi'r bobl i gadw mor ddiogel â phosibl. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau a roddir ar y bobl yn cael eu gwneud yn gyfreithiol, a bod y ddogfennaeth gywir ar waith. Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a roddwyd ac mae'r rheolwr yn bwriadu eu gwella, drwy gynnwys gwybodaeth fanylach o safbwynt yr unigolyn.

Mae cydgysylltydd gweithgareddau yn y gwasanaeth sy'n trefnu amrywiaeth o weithgareddau fel ymarfer corff o'r gadair, celf, crefftau, a cherddoriaeth. Mae'r bobl hefyd yn mwynhau treulio amser yn darllen papurau newydd a llyfrau, gwylio'r teledu a rhyngweithio â'i gilydd. Mae'r bobl yn treulio amser gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau yn eu hystafelloedd eu hunain neu yn yr ardaloedd cymunedol gwahanol. Mae'r rheolwr a'r cydgysylltydd gweithgareddau yn bwriadu gwella'r ffordd y maent yn cofnodi'r gweithgareddau amrywiol sy'n cael eu cynnal yn y cartref a'r buddion i'r bobl.

Mae'r systemau storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol. Mae'r nyrsys yn sicrhau y caiff meddyginiaeth ei rheoli'n briodol ac maent yn cymryd amser i roi'r dosau cywir o feddyginiaeth i'r bobl ar yr amser cywir.

Mae'r darparwr wedi recriwtio aelodau newydd o staff ac mae nifer digonol o weithwyr gofal ar gael i ddiwallu anghenion y bobl yn ddiogel erbyn hyn. Mae nifer digonol o staff yn ymateb i'r bobl ac yn eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol a phwyllog yn ystod yr arolygiad.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn olau ac yn ffres a chaiff ei gynnal a'i gadw'n dda gan dîm cadw tŷ a thîm cynnal a chadw ymroddedig. Mae'r bobl yn mwynhau rhyngweithio â'i gilydd, eu hymwelwyr a'r tîm o staff yn yr ardaloedd cymunedol gwahanol. Mae'r unigolion yn personoli eu hystafelloedd â'u hornamentau, eu lluniau a'u dodrefn eu hunain.

Mae'r cartref mewn cyflwr da ac mae lluniau o'r ardal leol yn helpu'r bobl i ymgysylltu â'u cymuned. Mae'r darparwr wedi cynllunio rhaglen uwchraddio ac mae'n bwriadu gwella'r ardd er mwyn i'r bobl fwynhau'r tir yn ddiogel. Caiff y décor ei atgyweirio a'i wella pan fydd angen a dywedwyd wrthym yr eir i'r afael ag unrhyw faterion yn brydlon. Mae'r darparwr yn sicrhau bod cyfarpar ar gael i'r bobl ei ddefnyddio sy'n cynnal eu hurddas a'u hannibyniaeth.

Caiff archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd eu cwblhau o'r eiddo a'r cyfarpar. Mae'r profion diogelwch tân yn gyfredol ac mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi’u teilwra at yr unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Mae'r gegin wedi cael sgôr o 5 ar gyfer hylendid bwyd. Mae'r bobl yn mwynhau'r dewis o gael profiad bwyta cymdeithasol gyda'i gilydd, fel grŵp bach neu o gael bwyta'n dawel ar eu pen eu hunain. Dywedodd unigolyn wrthym *“The food is really good*”.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr newydd wedi cymryd awenau'r gwasanaeth yn ddiweddar, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr newydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwasanaeth. Mae trefniadau digonol ar waith ar gyfer monitro a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae ei adroddiad bob tri mis yn dangos yr ymgynghorir â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff. Mae'r Unigolyn Cyfrifol ar fin cwblhau ei Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis cyntaf.

Mae'r rheolwr yn adnabod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda ac yn deall eu hanghenion. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol rhyngddi a'r bobl. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod yn adnabod y rheolwr yn dda a'i fod yn gallu siarad â hi pryd bynnag y mae am wneud hynny. Dywedodd y staff fod y rheolwr yn hawdd mynd ati ac yn gefnogol. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *"She (manager) is approachable, listens and is understanding".* Dywedodd cynrychiolwyr wrthym fod y rheolwr ar gael, ei bod yn hawdd siarad â hi a'i bod yn barod i helpu. Dywedodd un ohonynt,*"Communication is very good, I can talk to the staff when we are here, or I get a phone call if needed"* a *"The manager and the nurses are easy to talk to"*.

Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd bob chwarter ac maent yn gwerthfawrogi arweiniad a pholisi drws agored y rheolwr. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *"[Manager] is accessible and will always give you an answer to your question".* Dangosodd trafodaethau â'r staff fod ganddynt ddealltwriaeth dda o ddiogelu a'u bod yn hyderus i roi gwybod am faterion i uwch-aelodau o'r staff. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys geirdaon, gwiriadau hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae staff newydd yn cael sesiynau sefydlu a hyfforddiant gorfodol parhaus a hyfforddiant sy'n benodol i'r person, er mwyn diwallu anghenion y bobl. Mae'r staff nyrsio wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac maent yn sicrhau bod eu rhifau adnabod yn gyfredol. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu.

Mae'r darparwr newydd wedi recriwtio aelodau ychwanegol o staff er mwyn sicrhau bod digon o weithwyr gofal ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn deall eu hamgylchiadau a'u hanghenion personol. Dywedodd un o'r cynrychiolwyr wrthym, *"Staff are lovely and the home is lovely".*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/07/2024